

Dull Rhyngddisgyblaethol (Barnes, 2015, tt. 72-73): Anelir at ddatblygu dilyniant dynion mewn dau neu fwy o feysydd dysgu neu bwnc, lle hyrwyddir yr angen am greu cysylltiadau a meddwl yn greadigol rhwng y meysydd dan sylw. Disgwyli'r gweld y math yma o ddysgu pan gyfunir disgyblaethau i ddatrys problem neu i gyfleu dealltwriaeth mewn profiad personol. Gwelir ffocws mawr ar weledigaethau dysgwyr unigol i bwrpas casglu gwahanol ddehongliadau o'r un digwyddiad yn y dull hwn.

Profiad pwerus a rennir: Plant yn ymweld â chastell Caernarfon, ac yn derbyn profiadau uniongyrchol o fywydau pobl yn y gorffennol. Bwriedir manteisio ar y profiadau hollbwysig i ennyn diddordeb y plant mewn prosiect hwylus o greu rhaglen ddogfen (cysylltiadau i hanes a dylunio a thechnoleg – y dyniaethau).

Gweithgaredd 1 – Casglu gwybodaeth a chreu ffeil ffeithiau am hanes y castell: addasu allweddieriau a thechnegau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol ac ystyried os yw'r cynnwys yn berthnasol – CD; cydgasglu a threfnu gwybodaeth – LL (darllen); defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu – LL (ysgrifennu).

Gweithgaredd 2 – Dylunio a chreu propiau perthnasol i'r rhaglen ddogfen: dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas – Rh; dewis a llunio siartiau a diagramau priodol a chanddynt raddfeydd addas – Rh.

Gweithgaredd 3 – Ffilmio'r ddogfen a'i rhoi at ei gilydd dros gyfnod o amser i gael allbwn terfynol: cadw fersiynau wrth gefn ar ail neu drydedd dyfais – CD; creu, casglu a chyfuno ystod o destun, sain a fideo – CD; siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol – LL (llafaredd).

Nodwyd bod sawl cyfle i ddatblygu'r yfrifoldebau trawsgwricwlaidd yn y dyniaethau wrth ystyried bod modd eu hadlewyrchu mewn sefyllfaoedd go iawn (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Llywodraeth Cymru, 2013. *Fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol*, Caerdydd: Addysg Cymru.

MODEL 1




Diagram wedi addasu o Barnes, J., 2015. *Cross-curricular learning 3-14*. 3ydd gol. Llundain: Sage.

Llywodraeth Cymru (2016)
Llywodraeth Cymru (2013)

Dull Oportiwistaidd (Barnes, 2015, tt. 75-76): Caniateir i ymarferwyr darparu profiad wedi'i rannu i ddysgwyr i'r pwrpas o gychwyn datblygiad ehangach trwy brosiect neu brofiadau pellach; a fydd wedi'i arwain gan y plentyn yn uniongyrchol. Bwriedir manteisio ar ddiddordeb a chwilfrydded y plant wrth derbyn ymatebion gwir oddi wrthynt, fydd yn sail i weithgareddau ehangach wth ymdrin â'r dull hon.

Profiad pwerus personol: Plant yn derbyn e-bost gan y pennaeth, yn gofyn am eu cymorth i greu murlun ysgol sy'n cynrychioli ethos yr ysgol (cysylltiadau i ddylunio a thechnoleg a chelf – y celfyddydau mynegiannol).

Cyfle 1 – E-bostio'r pennaeth yn ôl i ofyn am fanylion ymhellach: cyfnewid cyfathrebiadau ar-lein gyda dysgwyr eraill gan ddefnyddio'r ystod gynyddol o nodweddion sydd ar gael – CD; adnabod nodweddion testunau – LL (darllen); defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Gymraeg safonol – LL (ysgrifennu).

Cyfle 2 – Casglu data syniadau a'u dosbarthu ar daenlen Excel i wneud penderfyniad: creu, archwilio a dadansoddi setiau data – CD; dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol – Rh.

Cyfle 3 – Cynllunio ar gyfer sut i fynd ati i greu'r murlun (gan gynnwys cost, adnoddau a thechnegau addas): dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas – Rh; cymharu a rhoi eitemau mewn trefn o ran cost, hyd at £1000 – Rh.

Cyfle 4 – Creu'r murlun a'i werthuso: defnyddio'r amodol i gyfleu damcaniaeth neu bositibilrwydd – LL (ysgrifennu).

Darparwyd cyfleoedd creadigol hollbwysig i ddatblygu'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd fel rhan o'r celfyddydau mynegiannol, a gobeithir bydd yn caniatáu agoriad llygaid o werthoedd sgiliau craidd wrth ddatblygu creadigrwydd mewn ffyrdd amrywiol (Llywodraeth Cymru, 2019c).

Barnes, J., 2015. *Cross-curricular learning 3-14*. 3ydd gol. Llundain: Sage.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Fframwaith cymhwysedd digidol*, Caerdydd: Addysg Cymru.

Gweithredu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn Ymarferol

Targedau sgiliau sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ar draws y meysydd dysgu yng nghyfnod allweddol 2, dosbarth blwyddyn 5.

Beth a pham?: Amlinellir yn y poster hwn dau ddull i addysgu'r hyn a ystyrir yn gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd; sef llythrennedd (LL), rhifedd (Rh) a chymhwysedd digidol (CD). Argymhella Donaldson (2015) a Llywodraeth Cymru (2019a) bod y cyfrifoldebau'n ganolog i bob maes dysgu a phrofiad, ac felly pwysleiswyd yr angen ar ymarferwyr i ymgysylltu ag addysgu proffesiynol gan Lywodraeth Cymru (2017). Caniateir hyn iddynt fod ar flaen y gad wrth ystyried goblygiadau'r cwricwlwm newydd, sydd wedi'i seilio ar argymhellion Donaldson ar gyfer 2022. Cynhyrchwyd y ffynhonnell hon yn dilyn awgrymiadau Estyn (2017) bod yna le i wella ar y cyfleoedd cyfyng darparwyd i blant i ddysgu'n drawsgwricwlaidd; yn enwedig wrth ystyried y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a'u pwysigrwydd wrth ddatblygu sgiliau hollbwysig fydd yn tanseilio addysg plant Cymru; drwy ffurfio cysylltiadau cryf rhwng y meysydd dysgu fel noda Llywodraeth Cymru (2015), Barnes (2015) a Morrison (2018). Cydnabyddir felly bod angen darparu profiadau trawsgwricwlaidd cyfoethog i blant i alluogi cynnydd.

BUDDION (1)

- Prif fantais y dull hwn yw'r ffaith ei fod yn ffocysu ar greu profiadau ystyrion trwy gyfuno sawl gwahanol faes ar hyd y cwricwlwm. Dengys ymchwil bod angen profiadau uniongyrchol ar blant er mwyn iddynt greu cysylltiadau pwrpasol rhwng yr hyn a ddysgwyd yn y dosbarth â'r byd tu hwnt i'r ysgol (Kashefapkel, et al., 2019; Browne, 2001). Y profiadau uniongyrchol hyn sy'n tanseilio'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, ac felly dylid manteisio ar bob cyfle i'w gwneud yn berthnasol i fywyd pob dydd.

- Dadleuir byddai'r dull hwn yn ddefnyddiol ac yn berthnasol iawn wrth ystyried bod angen gwneud mwy o ymdrech i integreiddio a gwau'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd i mewn i wersi lle fo'n berthnasol i'r dysgu Cooper, 2009; Dewey, 1902; Llywodraeth Cymru, 2013). Cydnabyddir bod hyn yn fwy manteisiol i'r athrawon ac i'r plant na'u haddysgu fel 'gwersi' unigol.

HERIAU (1)

- Er cydnabyddir bod gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc yn medru cynyddu'n sylweddol (Barnes, 2015) trwy dechnegau'r dull hwn, sonnir nad yw o hyd yn bosib i hyn fod yn wir. Gall cyflwyno sawl maes dysgu yn drawsgwricwlaidd ar yr un pryd i blant arwain at "bland broth" neu syniadau sydd ond yn hanner ddealladwy (Barnes & Shirley, 2007; Jacobs, 2004; Willingham, 2013). Cysylltir hyn i'r angen am athrawon hyderus sydd â gwybodaeth pwnc cadarn, fel nodwyd yn un o'r gofynion statudol (Llywodraeth Cymru, 2019a) ar gyfer ymarferwyr ac athrawon ar y cyd.

- Yn debyg i'r model oportiwistaidd, gwelir fod angen gwybodaeth pwnc clir ar ymarferwyr wrth ymdrin â'r dull rhyngddisgyblaethol, i'r pwrpas o sicrhau bod dysgwyr yn medru derbyn buddiant o fwiadau trawsgwricwlaidd y dull. Cefnogwyd y safbwynt bod angen dealltwriaeth gadarn o wybodaeth pwnc fel ymarferwyr gan sawl awdur adnabyddus yn maes addysg (Donaldson, 2015; Grigg, 2010; Clark, C & Teravainen, A, 2015); yn enwedig wrth ymdrin â llythrennedd sydd yn sail i bob agwedd o'r cwricwlwm.

BUDDION (2)

- Pwysleisir ffocws mawr ar blant yn arwain y dysgu (Barnes, 2015) yn y dull hwn. Targedir hawliau'r plentyn yma, oherwydd amlinellir ei fod yn bwysig i blant rhannu eu gwybodaeth a dealltwriaeth nhw wrth wneud penderfyniadau fydd yn dylanwadu arnynt hwy yn uniongyrchol (Comisiynydd Plant Cymru, 2019).

- Dengys llawer o dystiolaeth bod gwrandao ar yr hyn sydd gan blant i'w ddweud, boed yn farn, gwneud penderfyniad neu ofyn cwestiynau; yn rhoi teimlad o berthyn iddynt yn yr ysgol (Robinson, 2014, Rudduck & McIntyre, 2007; Northern Ireland Department of Education, diddyddiad). Effeithir hyn yn sylweddol ar ysgogiad plant i ymrwymo a'u haddysg, ac felly ystyrir yn effeithiol iawn i ennyn diddordeb y plant.

- Mantais fawr y dull hwn yw eu bod yn ffynnu ar chwilfrydded plant ar draws y cwricwlwm, i'r pwrpas o weld eu hymatebion naturiol i broblemau cyflwynir iddynt. Dengys tystiolaeth bod yna cysylltiadau cryf rhwng chwilfrydded a chymhelliant (Stephens, 2007), ac felly gall y dull yma arwain at gyffro plant mewn addysg.

HERIAU (2)

- Cydnabyddir bod y dull oportiwistaidd yn medru bod yn anodd cynllunio ar ei cyfer (Barnes, 2015), ac felly gofynnir i ymarferwyr bod yn hyderus yn eu gwybodaeth pwnc. Fodd bynnag, dengys ymchwil eang (Haylock, 2010; Estyn, 2009; Marina, et al., 2019) nad yw athrawon yn teimlo bod yr arfau ganddynt i addysgu rhai pynciau; yn enwedig wrth ystyried mathemateg, rhifedd a chymhwysedd digidol.

- Rhaid ystyried bod y dull trawsgwricwlaidd hwn yn medru bod yn anrhagweladwy gan mai'r plant fydd yn arwain y dysgu a'r trafodaethau. Nodwyd fod hyn yn agwedd bositif, o ganlyniad i bwysigrwydd llais y plentyn. Fodd bynnag, clywir bod athrawon yn pryderu am y pwyslais fydd ar wybodaeth pwnc ehangach i ymateb i chwilfrydded plentyn (Dabell, 2017). Ond, awgrymwyd bod plant ifanc yn medru meddwl mewn ffyrdd amrywiol (Askew, 2012; Goswami & Bryant, 2010), ac felly byddai modd manteisio ar gyfleoedd i ysgogi dysgu ystyrion allan o sefyllfaoedd lle ni ellir ymateb i gwestiynau'r plant (Will, 2017).